Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Leoliad Plant dan Bump Oed Pont-y-moel
Canolfan Byw Egnïol Pont-y-moel
Stryd Trosant
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 8AT

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Michael T. Ridout**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2014**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg ym Mhont-y-pŵl, Torfaen yw Lleoliad Plant dan Bump Oed Pont-y-moel. Mae'n ddarpariaeth annibynnol sy'n cael ei rhedeg gan bwyllgor rheoli gwirfoddol, ac mae yng Nghanolfan Byw Egnïol Pont-y-pŵl, ym Mharc Pont-y-pŵl. Mae'r ddarpariaeth hon yn rhan o Grŵp Plant dan Bump Oed Pont-y-moel, sy'n cynnwys pump o gylchoedd chwarae lleol yn cael eu rhedeg gan dîm rheoli. Mae Dechrau'n Deg a sesiynau gofal dydd, dros ddiwrnod estynedig, yn cael eu darparu i blant ar y safle ym Mhont-y-pŵl hefyd.

Mae'r lleoliad yn darparu gofal dydd sesiynol ac addysg i blant rhwng dwy a phedair oed. Mae wedi'i gofrestru ar gyfer 32 o blant, ac mae'n cynnig sesiynau bore a phrynhawn ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod tymhorau ysgol. Adeg yr arolygiad, roedd 16 o blant ar y gofrestr, bob un ohonynt wedi'u hariannu hyd at 10 awr yr wythnos gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Mae'r lleoliad yn gwasanaethu dalgylch eang sy'n cynnwys Pont-y-pŵl, Blaenafon, Cwmbrân a Brynbuga. Daw'r plant sy'n mynychu'r lleoliad o gefndiroedd amrywiol, ac mae ganddynt ystod o anghenion. Mae pob un ohonynt yn siarad Saesneg ac wedi'u geni'n Brydeinwyr. Nid oes unrhyw blant yn dod o leiafrifoedd ethnig. Nid yw'r un o'r teuluoedd yn siarad Cymraeg gartref. Mae nifer fach o ddisgyblion yn cael cymorth ychwanegol ar gyfer dysgu.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf yng Ngorffennaf 2013 gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a chan Estyn ym mis Hydref 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae bron yr holl blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda;
- mae gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel yn sicrhau lles plant;
- darperir ystod eang o brofiadau dysgu llawn dychymyg;
- mae addysgu effeithiol yn llwyddo i ennyn diddordeb plant fel dysgwyr;
- mae'r amgylchedd dysgu yn hapus a phwrpasol; ac
- mae partneriaethau gyda rhieni ac asiantaethau cymorth wedi'u datblygu'n dda.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella ymhellach yn dda oherwydd:

- mae'r lleoliad yn cael ei arwain, ei reoli a'i ddatblygu'n dda iawn;
- mae datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn effeithiol;
- mae ethos cadarn o weithio mewn tîm a chyfeiriad strategol clir i'w gweld yn amlwg;
- mae trefniadau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi'u sefydlu'n dda;
- rhoddir pwyslais cryf ar wella arfer a darpariaeth; ac
- mae hanes da o wella ers yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

A1. gwella cymhwysedd plant wrth siarad Cymraeg a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);

A2. parhau i integreiddio gweithdrefnau cynllunio ac asesu er mwyn dynodi'n gliriach beth yw'r camau nesaf yn y dysgu a chryfhau arweiniad ar gyfer addysgu;

A3. dod â chynlluniau gweithredu at ei gilydd er mwyn llywio gweithredu nodau'r lleoliad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael a'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Daw'r rhan fwyaf o blant i'r lleoliad gyda lefelau cyflawniad sydd fwy neu lai'n unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn cyflawni safonau da yn gyffredinol. Datblygant yn ddysgwyr hyderus wrth iddynt fynd ati'n frwdfrydig i archwilio'u hamgylchoedd a rhoi cynnig ar brofiadau newydd, ond mae cynnydd plant abl yn amrywio weithiau.

Mae medrau siarad a gwrando wedi'u datblygu'n dda gan y rhan fwyaf o blant. Mae llawer ohonynt yn dechrau sgyrsiau syml yn ddigymell, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y 'gegin'. Maent yn dweud beth yw eu hanghenion, yn gofyn cwestiynau synhwyrol ac yn mynegi'u hunain yn eglur. Mae ychydig o blant yn defnyddio geirfa eang ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn sgyrsiau estynedig ynglŷn â'u teulu a beth maent yn ei wneud. Gydag ychydig o eithriadau, mae plant yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn adrodd rhigymau cyfarwydd yn frwdfrydig. Mae nifer o blant abl yn trin llyfrau'n briodol fel darllenwyr, a dangosant ymwybyddiaeth gynyddol fod y testun a'r darluniau yn 'adrodd' y stori. Er enghraifft, maent yn dechrau adnabod a seinio blaenlythrennau wrth 'ddarllen' eu henw. Mae medrau gwneud marciau yn datblygu'n raddol ac mae ychydig iawn o blant yn ysgrifennu eu henw, yn dargopïo siapiau llythrennau ac yn gwneud ymdrechion da i ysgrifennu eu henw drwy gopïo.

Mae cynnydd mewn medrau mathemategol cynnar yn dda yn gyffredinol. Mae medrau rhifedd yn datblygu'n dda wrth i blant gyfrif fel rhan o'u gweithgareddau dyddiol, canu rhigymau a chwarae gemau rhif. Mae gafael da gan y rhan fwyaf ohonynt ar gyfrif gwrthrychau i o leiaf 5, a dangosant ymwybyddiaeth gynyddol o gyfatebiaeth un i un, fel paru gwrthrychau â rhifau ar dempled. Mae llawer yn dechrau defnyddio termau mathemategol priodol, fel sgwâr, petryal a thriongl. Fodd bynnag, anaml y bydd plant abl yn defnyddio ystod ddigonol o iaith fathemategol wrth ddidoli a chymharu gwrthrychau ac ymchwilio i siapiau a chynhwysedd. Mae cymhwysedd plant o ran defnyddio ystod gul o fedrau mewn TGCh ar gyfnod cynnar.

Mae cymhwysedd mewn Cymraeg yn datblygu. Mae llawer o blant yn ymateb yn briodol i'r geiriau a'r ymadroddion a siaredir gan oedolion, ond ychydig iawn sy'n defnyddio geirfa Gymraeg yn ddigymell.

**Lles: Da**

Gydag ychydig eithriadau, mae plant yn datblygu'n ddysgwyr hyderus. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau ac yn gwneud dewisiadau'n hyderus wrth iddynt symud rhwng tasgau. Mae'r rhan fwyaf yn chwilfrydig, yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cynnal diddordeb ac yn canolbwyntio'n dda, ac yn dyfalbarhau â thasgau am gyfnodau amser priodol.

Mae gan blant berthnasoedd da iawn â'i gilydd a gydag oedolion. Mae ymddygiad yn dda iawn, ac mae agweddau cadarnhaol gan y plant. Dangosant ystyriaeth a chwrteisi yn gynyddol, fel wrth rannu adnoddau ac yn ystod amser byrbryd. Gydag

ychydig o eithriadau, mae plant yn gweithio ac yn chwarae yn dda â'i gilydd. Maent yn datblygu lefel uchel o hunan-barch ac yn cynyddu hunanhyder yn raddol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi'u dewisiadau pan gânt eu holi ynglŷn â gweithgareddau yn y lleoliad. Cymerant eu tro yn hyderus i gynorthwyo ymarferwyr yn ystod gweithgareddau grŵp cyfan, a gydag ychydig bach o eithriadau, mae plant yn barod i helpu gyda thacluso adnoddau ar ddiwedd sesiynau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ystod eang o brofiadau dysgu llawn dychymyg yn cael ei chynllunio'n dda ac mae hyn yn hyrwyddo cynnydd yn llwyddiannus tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Rhoddir ystyriaeth dda i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wrth drefnu dysgu. Mae strwythur da iawn i'r cynllunio, mae'n hyrwyddo dilyniant ac yn cyd-fynd ag anghenion plant. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a pharch yn gadarn. Caiff yr holl feysydd dysgu eu cynrychioli'n dda drwy weithgareddau diddorol sydd ag adnoddau da.

Mae'r cynllunio yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer darpariaeth tymor hir a thymor byr. Caiff themâu eang eu dewis yn ofalus i ddarparu cyd-destunau perthnasol i blant ddatblygu'u medrau. Mae'r cynllunio yn fanwl ac yn arwain y ddarpariaeth mewn meysydd chwarae yn briodol. Mae ymarferwyr yn hyblyg o ran gweithredu'r cynllunio hwn. Ceir ystod dda o weithgareddau dan do ac awyr agored, ac mae'r rhain yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a medrau blaenorol plant. Mae tasgau a arweinir gan oedolion wedi'u diffinio'n dda, a chaiff amcanion dysgu eu nodi. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion yn cael eu cofnodi am sut y gellir gwella tasgau eraill.

Mae pwyslais cadarn yn cael ei roi ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu. Er enghraifft, defnyddir amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae rôl yn effeithiol i hyrwyddo medrau siarad a gwrando. Yn yr un modd, caiff medrau cyfrif plant eu datblygu'n dda, megis wrth ddidoli a pharu gwrthrychau. Mae'r ffocws ar fedrau TGCh yn datblygu'n raddol.

Caiff fframwaith y Cyfnod Sylfaen ei ddefnyddio'n dda i wirio bod y gweithgareddau cynlluniedig yn hyrwyddo medrau perthnasol a bod sylw'n cael ei roi i bob maes dysgu. Mae hyn yn helpu sicrhau dilyniant priodol mewn dysgu, ond er bod cynlluniau wythnosol yn cofnodi amcanion dysgu, nid oes digon o fanylion yn cael eu cofnodi am sut a beth y gallai plant ei ddysgu i helpu hyrwyddo cynnydd i'r eithaf, yn enwedig ar gyfer plant abl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant Cymru yn briodol. Mae gweithgareddau'n cael eu cynllunio, fel dathliad Dydd Gŵyl Dewi, ond ychydig o Gymraeg a siaredir yn achlysurol gan ymarferwyr y tu allan i sesiynau grŵp cyfan.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a’r Cyfnod Sylfaen. Mae’r addysgu yn rheoli ac yn cefnogi dysgu plant yn fedrus. Mae disgwyliadau uchel gan ymarferwyr o ran ymddygiad a chyflawniad plant. Darparant fodelau rôl da mewn iaith, maent yn rhyngweithio’n dda â phlant ac yn ymateb yn effeithiol i’w hanghenion.

Mae trefniadau dyddiol wedi’u strwythuro’n dda ac yn hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol. Ceir cymorth da ar gyfer gweithgareddau effeithiol dan do ac yn yr awyr agored. Mae cydbwysedd da o dasgau a ddewisir gan blant ac a arweinir gan oedolion yn cael ei gynllunio a’i roi ar waith.

Mae ymarferwyr yn gwybod yn dda pa dasgau y maent i’w harwain neu eu cefnogi, ac maent yn hyrwyddo lefelau uchel o ymgysylltiad yn llwyddiannus mewn ystod eang o weithgareddau. Datblygant eu medrau yn raddol wrth herio plant i ymestyn eu medrau a chyflawni’u gorau. Fodd bynnag, amrywiol yw eu dealltwriaeth o sut i ddatblygu dysgu yn unol â gallu plant.

Rhoddir digon o amser i blant gwblhau tasgau, ac mae ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol. Maent yn frwdfrydig ac yn aml yn defnyddio technegau holi a chanmol yn dda i hyrwyddo dysgu. Yn benodol, mae ymarferwyr yn datblygu medrau cyfathrebu a medrau cymdeithasol yn dda iawn. Caiff dysgu drwy chwarae ei annog yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu wedi’u strwythuro’n dda. Mae’r rhain yn cynnwys asesiadau gwaelodlin ac asesiadau â ffocws; caiff cofnodion plant unigol eu diweddaru’n rheolaidd ac mae’r rhain yn darparu proffil o gynnydd sy’n llawn gwybodaeth. Mae ymarferwyr yn nodi cyflawniadau plant yn rheolaidd. Mae eu harsylwadau yn cael eu cysylltu’n gynyddol â chynllunio, ac mae’r enghreifftiau gorau yn dangos cyflawniad mewn medrau penodol. Mae’r wybodaeth hon yn rhoi sylfaen dda ar gyfer cynllunio camau nesaf yn y dysgu, ond mae lefelau her yn amrywio ar brydiau, yn enwedig ar gyfer plant abl.

Caiff rhieni wybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Mae cysylltiadau anffurfiol o ddydd i ddydd a chyfarfodydd ffurfiol rheolaidd yn hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth am gynnydd plant yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles yn effeithiol. Caiff trefniadau i sicrhau datblygiad iach a lles plant eu gweithredu’n gyson. Mae bwyta’n iach yn cael ei hyrwyddo’n briodol drwy’r dewis o fwydydd a gynigir amser byrbryd, ac mae plant yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd i wneud gweithgareddau egnïol. Mae’r pwyslais cadarn sy’n cael ei roi ar ddatblygiad personol a chymdeithasol yn hyrwyddo ymddygiad a pherthnasoedd da iawn yn llwyddiannus.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwerthoedd cadarnhaol fel tegwch, gonestrwydd a pharch at eraill yn cael eu hyrwyddo’n llwyddiannus.

Anogir plant yn gryf i ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd ynglŷn â byd natur ac ymatebant gydag ymdeimlad o syndod a rhyfeddod, er enghraifft wrth archwilio cwymp dail yr hydref yn y parc. Cânt eu hannog yn sensitif i fyfyrio'n dawel ar eu profiadau yn y lleoliad.

Mae plant yn cael eu hannog yn gadarnhaol i wahaniaethu rhwng da a drwg, a rhoddir ffiniau clir iddynt ar gyfer ymddygiad. Caiff medrau cymdeithasol, fel cymryd eu tro, rhannu adnoddau a dangos ystyriaeth i eraill eu hyrwyddo'n dda iawn.

Mae cyfleoedd i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol yn cael eu hyrwyddo'n dda trwy ddathlu gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae ymarferwyr yn mynd ati'n briodol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o weithredu'n gynaliadwy, er enghraifft drwy ailgylchu a gweithgareddau yn y parc cyfagos.

Mae gweithdrefnau priodol gan y lleoliad i ddarparu cymorth arbenigol i blant pan fydd ei angen. Mae'r trefniadau i integreiddio plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu wedi'u dogfennu'n glir, ac mae ffocws da yn y ddarpariaeth bresennol.

Mae gweithdrefnau sefydledig yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel a chadarn. Rhoddir asesiadau risg priodol ar waith, ac mae tystysgrifau dilys y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan aelodau staff. Mae polisi priodol gan y lleoliad ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu. Nid yw'r trefniadau hyn yn destun unrhyw bryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yn y lleoliad, ac mae'n hyrwyddo cydraddoldeb yn dda ar draws ei ddarpariaeth. Mae ymarferwyr yn trin pob plentyn â pharch. Maent yn gefnogol, yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac yn rhoi ystyriaeth dda i gefndiroedd gwahanol plant. Mae hyn yn helpu sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o bryder gormodol.

Mae ymarferwyr yn annog sensitifrwydd a dealltwriaeth tuag at ei gilydd ac yn defnyddio strategaethau cadarnhaol i reoli unrhyw ymddygiad heriol. Caiff cyfle cyfartal ei hyrwyddo'n dda. Fodd bynnag, nid yw polisïau yn cynnwys manylion unrhyw gamau i sicrhau bod plant ag anableddau yn y dyfodol yn cael triniaeth lai ffafriol yn y lleoliad.

Mae digon o ymarferwyr cymwys a phrofiadol gan y lleoliad ar gyfer nifer y plant. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da sy'n briodol i oed yn darparu'n dda ar gyfer gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae darparu bagiau adnoddau ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn nodwedd dda iawn.

Mae'r adeilad, sy'n cynnwys dwy ystafell, yn cynnig amgylchedd dysgu diogel a chadarn. Caiff yr amgylchedd dan do ei wella'n sylweddol gan arddangosiadau o waith plant, ac mae'r adnoddau a ddarperir wedi'u trefnu'n dda iawn ac ar gael yn rhwydd. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd dysgu sy'n ysgogol yn weledol. Ceir offer da yn yr adeilad, ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r lleoliad yn llwyddo darparu mynediad i ddysgu awyr agored yn y parc cyfagos, er nad oes mynediad

uniongyrchol i hwyluso integreiddio gweithgareddau dan do ac awyr agored. Gwneir defnydd da o'r amgylchedd lleol ac ymwelwyr achlysurol i wella dysgu.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Caiff y lleoliad ei arwain, ei reoli a'i ddatblygu'n dda iawn. Mae safonau proffesiynol a disgwyliadau uchel gan y ddarpariaeth. Mae hyn yn arwain at ethos cyfeillgar, pwrpasol a chefnogol. Mae ymdeimlad clir o bwrpas yn treiddio drwy'r lleoliad a chaiff ystod o bolisïau a gweithdrefnau manwl eu gweithredu'n gyson.

Mae effaith cyfeiriad strategol, gweithdrefnau rheoli systematig, pwyslais cadarn ar ddatblygiad proffesiynol ymarferwyr a dosbarthu rolau arweinyddiaeth yn batrwm i eraill. Mae'r agweddau hyn ar arweinyddiaeth yn rhagorol.

Mae rheolwyr y lleoliad yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer gwella yn fedrus, yn hyrwyddo disgwyliadau uchel ac yn llwyddo sicrhau bod dealltwriaeth dda gan ymarferwyr o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae gwaith tîm effeithiol yn nodwedd allweddol o'r lleoliad. Mae'r agwedd hon yn helpu sicrhau safonau proffesiynol uchel ac yn galluogi'r lleoliad i adeiladu ar ei lwyddiant.

Mae pwyllgor gwirfoddol yn cynnal goruchwyliaeth briodol o waith y pum lleoliad annibynnol. Mae'n trafod cynllunio strategol, yn adolygu polisïau ac mae dau reolwr profiadol yn rheoli'r ddarpariaeth gyffredinol yn fedrus ac effeithiol.

Mae'r lleoliad yn coleddu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn frwdfrydig. Mae athroniaeth a dull y Cyfnod Sylfaen wedi'u hymgorffori, a cheir pwyslais cadarn ar gydraddoldeb, datblygiad iach a chaiff ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chynaliadwyedd ei hyrwyddo'n briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae effaith gweithdrefnau ar gyfer gwella ansawdd yn effeithiol. Mae diwylliant myfyriol o hunan-wella i'w weld yn amlwg, ac mae rheolwyr yn dangos effaith mentrau yn hyderus. Mae hanes da o sicrhau gwelliannau mewn addysgu a dysgu ers yr arolygiad diwethaf.

Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i farnau rhieni, gofalwyr a phlant gymaint ag y bo modd. Ceir trefniadau systematig i drafod meysydd i'w gwella, ac mae'r nodau a nodwyd yn berthnasol a chyflawnadwy. Mae'r cynllun gweithredu cryno, a gynhwyswyd yn yr adroddiad ansawdd gofal blynyddol, a'r targedau a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu, yn darparu sylfaen dda ar gyfer gwella ymhellach. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi at ei gilydd fel cynllun strwythuredig i lwyio gweithredu nodau'r lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod dda o bartneriaethau llwyddiannus gan y lleoliad sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae cysylltiadau agos â rhieni a gofalwyr wedi'u sefydlu'n dda. Cânt becyn croeso llawn gwybodaeth cyn y bydd eu plentyn yn mynychu'r lleoliad, a darperir gwybodaeth am ddigwyddiadau a'r cwricwlwm yn rheolaidd. Mae perthnasoedd cyfeillgar o ddydd i ddydd yn hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth am blant, a threfnir ymgynghoriadau mwy ffurfiol ar gyfer ymarferwyr a rhieni i drafod asesiadau gwaelodlin plant a'u cyflawniadau cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol.

Mae partneriaeth y lleoliad gydag ysgolion cynradd derbyn yn datblygu. Mae ganddo gysylltiadau agos â grŵp bychan o gylchoedd chwarae cyn-ysgol, ac mae hyn yn hyrwyddo rhannu arbenigedd ac adnoddau'n llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn darparu lleoliadau yn rheolaidd i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant gofal plant.

Mae'r bartneriaeth â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill, gan gynnwys Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, yn fuddiol o ran darparu hyfforddiant ac arweiniad. Mae effaith cymorth a sicrwydd ansawdd a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn briodol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r defnydd o ymarferwyr, a defnyddio a threfnu adnoddau, yn effeithiol iawn o ran hyrwyddo dysgu plant. Mae sesiynau wedi'u strwythuro'n dda, yn bwrpasol ac wedi'u trefnu'n effeithlon. Mae trefniadau dyddiol sydd wedi'u sefydlu'n dda yn sicrhau defnyddio cyfleusterau dan do ac awyr agored yn effeithiol. Mae'r pwyslais cadarn a roddir ar ddatblygiad proffesiynol yn nodwedd arbennig. Caiff hyn effaith dda ar brofiadau dysgu plant. Mae ymarferwyr yn ymgymryd â hyfforddiant priodol i wella'u cymwysterau, ac maent yn rhannu arfer dda gyda lleoliadau eraill drwy ddigwyddiadau hyfforddi ac ymweliadau.

Mae gweithdrefnau i fonitro incwm a gwariant y lleoliad yn gadarn. Caiff cyfrifon blynyddol eu harchwilio'n annibynnol, ac mae rheolwyr yn rhagweithiol o ran adolygu'r ddarpariaeth ac effaith adnoddau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol yn ddigon clir bob amser.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau ei hun yn effeithiol, ynghyd â'r cyllid a dderbyniwyd ar gyfer addysg hawl gynnar. Mae hyn yn cael effaith dda ar ddeilliannau plant ac yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.*

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 26% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 13 | 11 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 9 | 3 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 69% | 23% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 13 | 11<br>85% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 13 | 10<br>77% | 2<br>15% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 29% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 13 | 9<br>69% | 4<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 71% | 23% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 7<br>54% | 2<br>15% | 2<br>15% | 1<br>8% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 62% | 30% | 4% | 0% | | |
| The setting is well run. | 13 | 10<br>77% | 2<br>15% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr. Michael T. Ridout | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |